# Papur cefndir ar gyfer y Pwyllgor Menter a Busnes ar botensial yr Economi Forol i Gymru cyn sesiwn y Gweinidog ar 15 Hydref 2015

## Cyd-destun Rhyngwladol

1. Mae gan yr economi forol hanes hir o weithredu ar raddfa wirioneddol fyd-eang. Er nad yw'r economi wedi'i chyfyngu i gludiant llongau, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai cludiant llongau rhyngwladol fu'n ei llywio a natur y diwydiannau a fu'n cefnogi'r farchnad honno ac sy'n parhau i dyfu i gefnogi'r farchnad honno.

2. Cydnabyddir ein pwysigrwydd i'r economi forol fyd-eang yn rhyngwladol, ond mae'r sefyllfa hon yn newid a cheir heriau amlwg y mae angen ymdrin â hwy o ystyried cystadleuaeth gynyddol gan ganolfannau morol eraill sy'n prysur ddatblygu.

3. Mae'n hanfodol bod y sector ehangach yn cydweithio i wella ac addasu er mwyn manteisio'n llwyddiannus ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael ac er mwyn hyrwyddo cryfderau'r sector yn fwy effeithiol, gan fanteisio ar farchnadoedd rhyngwladol llewyrchus a chefnogi twf economaidd domestig.

4. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu mewn modd hyblyg er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd morol cyfnewidiol fel rhan o fframwaith strategol, cynaliadwy ar gyfer datblygu'r economi forol.

## Porthladdoedd

5. Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad llawn ar 7 Gorffennaf, mae gan borthladdoedd yng Nghymru ran hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi twf economaidd a swyddi.

6. Maent mewn sefyllfa unigryw i weithredu fel canolfannau ar gyfer economi forol amrywiol oherwydd eu capasiti parod i gynnig cyfleoedd i gyd-leoli gweithgareddau masnachol, diwydiannol - gan gynnwys alltraeth ac ynni morol - logistaidd, hamdden a physgota.

7. Bydd y pwerau datganoli pellach yn gysylltiedig â phorthladdoedd yn rhoi cyfle i Gymru fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd morol a symleiddio'r cyfleoedd hynny drwy gysylltu polisïau a chymorth i borthladdoedd yng Nghymru â chyfrifoldebau a chynlluniau datganoledig nawr ac yn y dyfodol, er enghraifft, mewn perthynas ag ynni. Rydym hefyd yn disgwyl y byddwn yn gyfrifol am Orchmynion Harbwr a ddatganolir o dan Fil Cymru, gan roi'r cyfle i ni ystyried sut y gallwn wella'r broses gorchmynion ar gyfer porthladdoedd i'w helpu i sicrhau cyfleoedd.

8. Mae gwaith i bennu manylion y broses ddatganoli yn mynd rhagddo. Fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, rwyf yn ymrwymedig i ddatblygu strategaeth porthladdoedd i Gymru gyda'r sector, partneriaid a

rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Ardaloedd Menter a busnesau cysylltiedig, megis cwmnïau fferi, datblygwyr ynni a'r diwydiant twristiaeth. Bydd rôl porthladdoedd yng Nghymru wrth gefnogi'r economi forol ehangach er mwyn sicrhau'r lefelau gorau o dwf economaidd a swyddi yng Nghymru yn rhan annatod o strategaeth porthladdoedd i Gymru.

**Gweithio gyda Llywodraeth y DU i fanteisio ar Dwf Morol**

9. Mae’r ddogfen gan yr Adran Drafnidiaeth, *Maritime Growth Study: keeping the UK competitive in a global market*[1] y DU, a gyhoeddwyd ar 7 Medi, yn nodi'r heriau o ystyried cystadleuaeth gynyddol o ganolfannau morol eraill sy'n prysur ddatblygu.

10. Mae'r astudiaeth yn gwneud nifer o argymhellion, i'r diwydiant ac i'r Llywodraeth. Maent yn cynnwys sefydlu Gweithgor Gweinidogol ac rwyf wedi ysgrifennu at Robert Goodwill AS yn yr Adran Drafnidiaeth i gytuno pa ran y bydd Cymru yn ei chwarae wrth roi'r argymhellion hyn ar waith, yn arbennig gan gydnabod y bydd porthladdoedd, sy'n hanfodol o ran sicrhau economi forol lwyddiannus, wedi'u datganoli i Gymru.

**Ardaloedd Menter**

11. Rydym yn glir ynghylch ein bwriad i ddefnyddio Ardaloedd Menter fel ffordd o gefnogi ac ysgogi gweithgarwch masnachol a buddsoddi mewn porthladdoedd ac o'u hamgylch, a fydd, yn ei dro, yn helpu i hyrwyddo'r economi forol ehangach.

12. Er enghraifft, mae'r porthladd môr dwfn yn Aberdaugleddau yn bwynt gwerthu allweddol i ddarpar fuddsoddwyr yn Ardal Fenter Dyfrfforddd y Ddau Gleddau. Mae Porthladd Caergybi yn elfen hanfodol o Ardaloedd Menter Gogledd Cymru ac mae'n debygol y bydd yn chwarae rhan allweddol o fewn prosiect Wylfa Newydd a'r sector ynni morol drwy ddarparu lleoliad ar gyfer cyfleusterau glan porthladd.

**Cysylltiadau Bro**

13. Mae argaeledd cysylltiadau bro effeithiol a chynaliadwy i'n porthladdoedd ac o'n porthladdoedd yn hanfodol er mwyn cefnogi a datblygu economi forol amrywiol a llwyddiannus. Pwysleisiwyd hyn yn yr adroddiad gan fy Ngrŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gludo Nwyddau ac fe'i adlewyrchir yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.

14. Rydym yn parhau i ystyried cyfleoedd i wneud cais am gyllid gan yr UE ar gyfer prosiectau Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewrop (TEN-T) ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, gan gynnwys o dan y ffrwd ariannu 'Traffyrdd y Môr' a all gwmpasu cysylltiadau bro.

15. Ym mis Gorffennaf, roeddwn yn gyfrifol am ymweliad i Gymru gan Péter Balázs, y Cydgysylltydd Ewropeaidd ar gyfer Coridor TEN-T Môr y Gogledd-Y Canoldir o’r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar gyfer Symudedd a Thrafnidiaeth (DG

[1] https://www.gov.uk/government/publications/maritime-growth-study-report

MOVE). Y cyngor allweddol a gafwyd oedd y dylai Cymru weithio mewn partneriaeth ag Iwerddon a rhannau eraill o'r DU.

16. Rydym yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer cyd-brosiectau posibl gydag Iwerddon ac yn ymwneud yn uniongyrchol ag astudiaeth cludo nwyddau a logisteg Transport for the North a fydd yn cefnogi cynigion i ddatblygu cysyniad y Northern Powerhouse ac yn helpu i lywio achosion busnes er mwyn denu buddsoddiad gan y llywodraeth yn y dyfodol ac mewn perthynas â cheisiadau am brosiectau sy'n gysylltiedig â TEN-T. Bydd Gogledd Cymru - o Gaergybi hyd at y ffin - yn rhan o'r astudiaeth.

**Ynni**

17. Rydym yn parhau i annog a chefnogi cynigion i ddatblygu'r sector tonnau a llanw yng Nghymru ac yn ymgysylltu â nifer o ddatblygwyr sy'n awyddus i ddefnyddio ynni'r môr ar hyd arfordir Sir Benfro ac Ynys Môn. Caiff y sector ffrwd lanw yng Ngogledd Cymru ei arwain gan brosiect Ynni Morlais Menter Môn, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu ardal arddangos lanwol Gorllewin Ynys Môn. Mae nifer o ddatblygwyr dyfeisiau wedi mynegi diddordeb mewn arddangos eu dyfeisiau yn yr ardal a disgwylir y bydd hyn yn arwain at gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ledled Cymru.

18. Mae Minesto UK, cwmni ynni o Sweden, yn sefydlu ei bencadlys ar gyfer y DU yng Ngogledd Cymru ar ôl sicrhau £9.5 miliwn o gyllid gan yr UE i ddatblygu menter ynni'r llanw gwerth £25 miliwn oddi ar arfordir Caergybi. Mae prosiectau eraill tebyg ar y gweill. I ddechrau, bydd Minesto yn creu tua 30 o swyddi uniongyrchol ar Ynys Môn mewn meysydd fel gweithgynhyrchu, gweithrediadau alltraeth a datblygu prosiectau newydd fel rhan o gynllun arloesol 'Deep Green' a fydd yn dylunio, gweithgynhyrchu a phrofi dyfais cyflymder isel i gynhyrchu trydan ar gyfer miloedd o gartrefi gan ddefnyddio ceryntau'r llanw a chefnforoedd.

19. Rydym yn cefnogi'r diwydiant yn Sir Benfro drwy Ynni Morol Sir Benfro.

20. Mae'r Catapwlt Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (ORE) yn un o rwydwaith o ganolfannau technoleg ac arloesedd blaenllaw a sefydlwyd gan Innovate UK fel buddsoddiad hirdymor yng ngallu economaidd y DU. Gan gymhwyso gwaith ymchwil o dan arweiniad busnesau, mae Catapyltau yn helpu busnesau i droi syniadau yn gynhyrchion a gwasanaethau gwerthfawr er mwyn cystadlu ym marchnadoedd byd-eang y dyfodol.

21. Rydym wedi gweithio gydag ORE i ddarparu cydgysylltydd rhanbarthol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y diwydiant yng Nghymru drwy gysylltiadau â phrifysgolion ac arbenigwyr morol blaenllaw.

22. Rydym eisoes wedi cefnogi cwmnïau megis Ledwood Engineering a Mainstay, a datblygwyr dyfeisiau megis Tidal Energy Ltd, Marine Power Systems a Minesto drwy ddarparu cyllid arloesi ac astudiaethau seilwaith trydanol.

23. Rydym yn deall mai megis dechrau datblygu y mae'r sector hwn yn benodol, ac mae llawer gan y diwydiant i'w wneud o hyd i ddatblygu'r dechnoleg ac i brofi ei photensial i fuddsoddwyr.

24. Mae angen i ni ddatblygu dulliau meddwl strategol a blaengynllunio ymhellach er mwyn sicrhau'r cyflawniadau a'r canlyniadau gorau yn y sector hwn, gan ganolbwyntio ar ei botensial i sicrhau twf economaidd a chyfleoedd swyddi yng Nghymru ac i bobl Cymru.

25. Felly, rwyf wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ynni Morol i'm cynghori ar y mesurau allweddol sydd eu hangen i gefnogi datblygiad y sector ynni morol yng Nghymru er mwyn i'r llywodraeth a diwydiant ddeall potensial llawn y sector yn well a gwireddu'r potensial hwnnw ac er mwyn sicrhau bod y mesurau yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu'r UE ar gyfer prosiectau seilwaith ac ymchwil. Rwyf yn disgwyl i'r Grŵp wneud argymhellion o ran sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau'r budd economaidd hirdymor gorau posibl gan y sector a'r arian sydd ar gael, gan gynnwys Horizon 2020. Disgwylir iddo gyhoeddi ei adroddiad cychwynnol ym mis Chwefror 2016.

26. Wrth ystyried ei gyngor, bydd y grŵp yn ystyried adroddiad Pwyllgor Rhanbarthau'r UE *Developing the potential of Ocean Energy*, sy'n cyfeirio at brosiectau yng Nghymru.

27. O ran cyfraniad posibl ynni niwclear i'r economi forol, prosiect adeilad newydd £12 biliwn Wylfa Newydd fydd y prosiect buddsoddi unigol mwyaf yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf, ac mae'n bwysig iawn i'r economi, yn enwedig economi Gogledd-orllewin Cymru. Ddiwedd 2014, gwnaethom sefydlu Bwrdd Rhaglen Niwclear i gydgysylltu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r agenda niwclear ar draws sectorau ac adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i sicrhau'r buddiannau ehangach gorau posibl ac integreiddio'r buddiannau hynny. Y nod yw sicrhau cymaint o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd â phosibl i Gymru a busnesau yng Nghymru, gan gynnwys cyfleoedd morol.

**Twristiaeth**

28. Mae datblygu twristiaeth forol yn ei hystyr ehangaf - o ymweliadau gan longau mordeithio i weithgareddau antur arfordirol arbenigol - yn elfen allweddol wrth helpu i gynyddu twf economaidd a chyfleoedd swyddi yng Nghymru.

29. Rydym hefyd yn benodol yn awyddus i annog teithwyr fferi sy'n teithio o Iwerddon i gymryd gwyliau yng Nghymru. Mae Croeso Cymru yn gweithio'n agos ag Irish Ferries a Stena Line i hyrwyddo Cymru. Bob blwyddyn, mae Croeso Cymru a'r cwmnïau fferi yn cytuno ar weithgaredd ar gyfer ymgyrch farchnata ar y cyd, gan gydweithredu er mwyn hyrwyddo Cymru yn well fel cyrchfan i dwristiaid i ddarpar ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddysgu o ddull gweithredu Iwerddon drwy raglen drawsffiniol INTERREG 2014-2020 ar gyfer Iwerddon a Chymru.

**Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru**

30. Mae gwyddoniaeth yn gyfrannwr economaidd pwysig a chynyddol i Gymru. Mae'n sail i bob math o dechnoleg ac i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau arloesol a dyma yw agenda Arbenigo Craff yr UE ar gyfer rhanbarthau Ewrop. Bydd ail gam cynllun Sêr Cymru yn adeiladu ar y pedwar Cadeirydd Ymchwil a'r tri Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol clodwiw a oedd yn rhan o'r cam cyntaf ac nas cynhaliwyd gan ddefnyddio cyllid yr UE. Bydd yr ail gam yn parhau â'n strategaeth gyffredinol i gynyddu gallu gwyddonol yng Nghymru, gan ymdrin â'r diffyg gwaith ymchwil a amcangyfrifir yng Nghymru mewn meysydd sy'n hanfodol o ran datblygu ein heconomi.

31. Ariennir Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol Sêr Cymru ar gyfer Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi gwaith ymchwil cydweithredol a rhyngddisgyblaethol yng Nghymru i'r rhyngweithio rhwng tir, dŵr, darparu bwyd a chynhyrchu ynni, ar wahanol raddfeydd gofodol ar draws systemau aer-tir-dŵr. Mae'n fenter sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac yn cynnwys partneriaid o Brifysgolion Bangor, Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd a De Cymru, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Arolwg Daeareg Prydain Cymru a Swyddfa Dywydd y DU. O blith yr wyth clwstwr ymchwil sy'n rhan o'r rhwydwaith, mae gan dri ohonynt gyd-destun morol:

- AQUAWALES – Ymdrin â'r tair prif her ar gyfer dyframaeth cynaliadwy (lleihau ei ôl troed ecolegol, lleihau'r risg y caiff afiechydon eu trosglwyddo, a rheoli achosion anfwriadol o gyflwyno rhywogaethau ymledol) a chyfuno technegau molecylaidd newydd â phŵer gwyddoniaeth dinasyddion i ddatblygu dulliau arloesol o ganfod a rheoli rhywogaethau ymledol yn gynnar mewn perthynas â Dyframaeth a Physgodfeydd.

- QUOTIENT - Ymdrin â natur adnoddau ynni adnewyddadwy morol yng nghyd-destun cynnydd yn lefel y môr a phatrymau tywydd cyfnewidiol, gyda'r nod o wella ymdrechion i optimeiddio ynni morol fel ffynhonnell o bŵer dibynadwy i'r grid.

- RESILCOAST - Integreiddio gwydnwch ecosystemau i waith cynllunio arfordirol, gan gynnwys amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd a gwasanaethau ecosystem ar wlyptiroedd.